defnyddio eu holl adnoddau i wella eu dysgu ac i ddal i fyny gyda gwaith darllen y cwrs a chynnwys y darlithoedd.

**Mae’r darlithydd eisiau gwybod ar gyfer pwy y mae’r gweithiwr cefnogi’n cymryd nodiadau. Gall y gweithiwr cefnogi roi fy enw?**

- Mae’r Cod Ymarfer yn ymrwymo’r cymerwr nodiadau i gynnal cyfrinachedd ac felly ni ddylai ddatgelu enw myfyriwr.
-

- Mae’n rhaid i chi gymeradwyo taflenni amser electronig eich cymerwr nodiadau i gadarnhau eich bod wedi derbyn y nodiadau. Os na fyddwch yn cymeradwyo’r gwaith, ni fydd y cymerwr nodiadau yn cael ei dalu. Caiff y cynllun ei ariannu drwy’r LMA. Os byddwch yn rhannu cymerwr nodiadau, caiff y gost ei rhannu rhwng lwfansau LMA.
- I'r rhai sy'n derbyn Cymorth trwy Gymorth Mewnol Prifysgol Bangor, bydd y Gweithiwr Cymorth yn gofyn iddo gwrdd unwaith yr wythnos i lofnodi taflen amser.

**Mae gennyf ffrind yr hoffwn iddo/iddi weithredu fel fy ngweithiwr cefnogi. A allaf eu defnyddio nhw yn lle cynllun gweithwyr cefnogi'r Brifysgol?**

- Mae gennych hawl i drefnu eich cynorthwyydd anfeddygol eich hun - nid oes unrhyw reidrwydd arnoch i ddefnyddio gwasanaeth Prifysgol Bangor. Ond ni ellir dal y Brifysgol yn gyfrifol am wirio cefndir y bobl a ddefnyddiwch yn annibynnol nac ychwaith ei dal yn gyfrifol am unrhyw ddeddfwriaeth gyflogaeth sy'n ymwneud â'r bobl hyn. Byddwch yn gyfrifol am drefnu eu didyniadau cyflogaeth, megis treth ac Yswiriant Gwladol. Os oes gennych ffrind yr hoffech ei hurio i’ch cynorthwyo yna dylech gysylltu â'r cydlynydd.

**Rhaid i chi gadarnhau eich bod chi wedi derbyn y ddogfen Canllawiau sy’n ymwneud â’r Cynllun Gweithwyr Cefnogi, a’ch bod yn cytuno i gadw at y canllawiau.**

Cydlynydd Cymorth Anfeddygol
gwaithcefnogi@bangor.ac.uk
01248 383022